

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu
Gofal Cymdeithasol (Cymru)
2016

Canllawiau ar gwblhau
Datganiad Blynyddol

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Cyd-destun cyfreithiol.....	3
Datganiadau Blynyddol i'w cyflwyno yn 2022.....	4
Cyrchu, cyflwyno a chyhoeddi'r datganiadau blynyddol	6
Cyngor ac arweiniad pellach	7
Atodiad A – Cwestiynau cyffredin.....	8

Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn cynnig canllawiau i ddarparwyr gwasanaethau ar lenwi a chyflwyno datganiad blynyddol (DB) fel sy'n ofynnol o dan adran 10 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Deddf 2016).
2. Mae'r canllawiau hyn ar gyfer darparwyr gwasanaethau sy'n gweithredu gwasanaethau a reoleiddir o dan Ddeddf 2016. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:
 - gwasanaethau cartrefi gofal
 - gwasanaethau llety diogel
 - gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd
 - gwasanaethau cymorth cartref
 - gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig
 - gwasanaethau maethu rheoleiddiedig
 - gwasanaethau lleoli oedolion
 - gwasanaethau eirioli rheoleiddiedig

Cyd-destun cyfreithiol

3. Mae Deddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau cofrestredig gyflwyno DB i Weinidogion Cymru ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r DB gynnwys yr wybodaeth a nodir yn adran 10¹ o Ddeddf 2016.
4. Rhaid i'r DB hefyd gynnwys yr wybodaeth a nodir yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017² ("y Rheoliadau Datganiadau Blynyddol"), fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol a Chofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2019³.
5. Mae Deddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi pob DB a gyflwynir.
6. Mae'r Rheoliadau Datganiadau Blynyddol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r DB fod ar ffurf datganiad ar-lein a chael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru o fewn 56 diwrnod i ddiwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

¹ <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/section/10/enacted>

² <https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/1097/contents/made>

³ <https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/233/contents/made>

7. Fodd bynnag, i gydnabod bod darparwyr gwasanaethau dan bwysau sylweddol oherwydd effaith y pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio'r rheoliadau⁴ ymhellach er mwyn lleihau'n sylweddol faint o gynnwys sydd ei angen yn y datganiadau blynyddol ac oedi'r dyddiad cyflwyno tan fis Hydref 2022. Gweler yr adran ar 'Datganiadau blynyddol i'w cyflwyno yn 2022' am ragor o wybodaeth.

Methiant yn cyflwyno datganiad blynyddol

8. O dan adran 48⁵ o Ddeddf 2016, mae'n drosedd i ddarparwr gwasanaeth fethu â chyflwyno datganiad blynyddol o fewn yr amserlenni a nodir gan y rheoliadau. Os bydd darparwr gwasanaeth yn methu â chyflwyno datganiad blynyddol o fewn yr amserlenni gofynnol, gallai fod yn destun hysbysiad cosb neu gamau gorfodi eraill⁶ yr ystyrir yn angenrheidiol gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).
9. O dan adran 52 o Ddeddf 2016, caiff Gweinidogion Cymru osod hysbysiad cosb os ydynt wedi'u bodloni bod y darparwr gwasanaeth wedi cyflawni tramgwydd rhagnodedig. Mae hyn yn cynnwys methiant i gyflwyno DB.
10. Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019⁷ yn nodi bod y gosb sydd i'w thalu yn swm sy'n cyfateb i Lefel 4 ar y raddfa safonol (mae hyn yn cyfateb i £2,500).

Datganiadau blynyddol i'w cyflwyno yn 2022

11. Mae Deddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyflwyno DB ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol y mae'r darparwr wedi'i gofrestru ynddi.
12. Felly, mae angen DB yn 2022 ar gyfer pob un o'r cyfnodau adrodd ariannol: 2018-19, 2019-20, 2020-21 a 2021-22, yn dibynnu ar flwyddyn gofrestru'r darparwr gwasanaeth. *Er enghraifft, os oedd darparwr gwasanaeth wedi'i gofrestru ag AGC ym mis Medi 2019, mae'n ofynnol iddo gyflwyno DB ar gyfer y cyfnodau adrodd ariannol: 2019-20, 2020-21 a 2021-22.*
13. Fodd bynnag, dim ond ar gyfer pob gwasanaeth rheoleiddiedig a weithredir gan y darparwr gwasanaeth ar hyn o bryd y bydd y DB yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno gwybodaeth. Nid oes rhaid i'r darparwr gwasanaeth gyflwyno

⁴ <https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2021/395/made> a

<https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2022/476/made>

⁵ <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/section/48/enacted>

⁶ <https://arolygiaethgofal.cymru/darparu-gwasanaeth-gofal/ein-dulliau-gorfodi>

⁷ <https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/887/contents/made>

gwybodaeth mewn perthynas ag unrhyw wasanaethau y gallai fod wedi cau yn ystod y cyfnodau adrodd hyn.

Newidiadau i ddeddfwriaeth

14. I gefnogi'r sector, yn dilyn effaith y pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio'r rheoliadau i ohirio'r gofyniad i ddarparwyr gwasanaethau gyflwyno'r DB tan **31 Hydref 2022**.

15. Yn ogystal, mae'r rheoliadau'n cyfyngu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer y DBau sy'n ddyledus ym mis Hydref 2022 i'r hyn a nodir ar flaen Deddf 2016. Bydd y dull hwn yn lleihau faint o gynnwys sydd ei angen yn y datganiadau blynyddol yn sylweddol. Mae'r wybodaeth sydd ei hangen yn y DB wedi'i chyfyngu i'r canlynol:

Gwybodaeth sydd ei hangen yn y DB	
Y gwasanaethau rheoleiddiedig y mae'r darparwr gwasanaeth wedi'i gofrestru i'w darparu	Wedi'u rhaglenwi
Y manau y mae'r darparwr wedi'i gofrestru i ddarparu'r gwasanaethau hynny ynddynt, ohonynt neu mewn perthynas â hwy	Wedi'u rhaglenwi
Enw'r unigolyn cyfrifol sydd wedi'i benodi ar gyfer pob gwasanaeth	Wedi'i raglenwi
Dyddiad cofrestru pob gwasanaeth a lleoliad rheoleiddiedig o'r fath	Wedi'i raglenwi
Manylion unrhyw amodau eraill ar gofrestrriad darparwr y gwasanaeth	Wedi'u rhaglenwi
Manylion nifer y bobl y darparwyd gofal a chymorth iddynt gan y darparwr yn ystod y flwyddyn	I'w mewnosod gan y darparwr gwasanaeth ar gyfer pob gwasanaeth rheoleiddiedig a weithredir gan y darparwr ym mhob un o'r cyfnodau adrodd
Datganiad sy'n nodi sut mae'r darparwr gwasanaeth wedi cydymffurfio â gofynion y rheoliadau	Datganiad i'w ddewis gan y darparwr gwasanaeth (dewiswch un o bedwar datganiad) ar gyfer pob gwasanaeth rheoleiddiedig a weithredir gan y darparwr ym mhob un o'r cyfnodau adrodd

16. Bydd y rhan fwyaf o'r DB yn cael ei rhaglenwi â'r wybodaeth sydd gan AGC am y darparwr gwasanaeth a'r gwasanaethau rheoleiddiedig y mae'n eu gweithredu ar hyn o bryd (fel y nodir yn y tabl uchod). Efallai y bydd y darparwr gwasanaeth am adolygu'r wybodaeth hon ond ni all ei newid. Mae'r wybodaeth sydd wedi'i rhaglenwi yn adlewyrchu'r hyn a oedd gennym ar y gofrestr gyfreithiol bryd hynny (am y cyfnod adroddedig a nodir, h.y. 2018-19) ac felly ni ellir ei newid.

Adran darparwr y DB

17. Bydd adran darparwr y DB yn cael ei rhaglenwi'n llwyr gan wybodaeth a gedwir gan AGC. Nid oes angen i'r darparwr gwasanaeth gymryd unrhyw gamau penodol mewn perthynas â'r adran hon.

Adran gwasanaeth y DB

18. Dim ond gwybodaeth am bob un o'i wasanaethau rheoleiddiedig (sy'n gweithredu ar hyn o bryd) a oedd yn gweithredu yn ystod y cyfnod adrodd y bydd angen i'r darparwr gwasanaeth ei darparu, yn benodol:

- nifer y bobl y darparwyd gofal a chymorth iddynt yn ystod y cyfnod adrodd ar gyfer y gwasanaeth rheoleiddiedig hwnnw
- detholiad o ddatganiad wedi'i ddiffinio ymlaen llaw (dewis o bedwar) sy'n nodi sut mae'r gwasanaeth rheoleiddiedig wedi cydymffurfio â gofynion ei reoliadau perthnasol yn ystod y cyfnod adrodd

Bydd yr holl wybodaeth arall (ar gyfer pob gwasanaeth rheoleiddiedig sy'n gweithredu) yn cael ei rhaglenwi gan wybodaeth a gedwir gan AGC.

19. Yn ogystal, bydd angen i'r unigolyn cyfrifol dynodedig ar gyfer y gwasanaeth rheoleiddiedig wneud datganiad sy'n cadarnhau bod yr wybodaeth a ddarperir (h.y. ar gyfer y ddau bwynt uchod) ar gyfer y cyfnod adrodd hwnnw yn gywir hyd eithaf ei wybodaeth.

Cyrchu, cyflwyno a chyhoeddi'r datganiadau blynyddol

Cyrchu'r DB ar gyfer pob cyfnod adrodd

20. Bydd darparwyr gwasanaethau yn cyrchu ac yn cyflwyno eu DB ar-lein trwy eu cyfrif AGC Ar-lein. Bydd system AGC Ar-lein yn nodi'n glir pa gyfnodau adrodd y mae angen DB i'w gyflwyno yn 2022. Bydd y system ar-lein hefyd yn nodi o fewn y DB (ar gyfer y cyfnod adrodd a nodir) y gwasanaethau a weithredir gan y darparwr y mae angen gwybodaeth ar eu cyfer.

21. Bydd y DBau ar gael o **1 Awst 2022**.

Cyflwyno'r DB ar gyfer pob cyfnod adrodd

22. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod yr holl wybodaeth yn y DB ar gyfer pob un o'r cyfnodau adrodd gofynnol wedi'i chwblhau. Bydd y system ar-lein yn atal darparwr gwasanaeth rhag cyflwyno DB anghyflawn.

23. Dim ond yr unigolyn/unigolion cyfrifol neu swyddog(ion) y sefydliad sy'n gysylltiedig â'r darparwr sydd wedi actifadu eu cyfrif AGC Ar-lein all gael mynediad at eu datganiad blynyddol, ei gwblhau a'i gyflwyno. Mae'n ofynnol i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod yr adran o'r DB sy'n ymwneud â'r gwasanaeth y mae wedi'i ddyodi ar ei gyfer wedi'i chwblhau. Ni all cynorthwyr ar-lein gwblhau na chyflwyno'r datganiad blynyddol.

24. Wrth gyflwyno'r DB, rhaid i'r darparwr gwasanaeth gwblhau datganiad i ddatgan bod y DB ar gyfer y cyfnod adrodd perthnasol yn wir hyd eithaf ei wybodaeth.

Cyhoeddi'r DB ar gyfer pob cyfnod adrodd

25. Bydd yr holl wybodaeth a gynhwysir yn y DB ar gyfer pob un o'r cyfnodau adrodd yn cael ei chyhoeddi. Unwaith y bydd y DB wedi'i gwblhau a'i gyflwyno gan y darparwr gwasanaeth, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGC (ar dudalen y cyfeiriadur gwasanaethau).

26. Bydd y DBau yn parhau i gael eu cyhoeddi ar y wefan hyd nes y cânt eu disodli gan gyflwyniad DB nesaf y darparwr gwasanaeth, h.y. ar gyfer y cyfnod adrodd 2022-23.

Cyngor ac arweiniad pellach

27. Mae cwestiynau cyffredin wedi'u hamlinellu o fewn **Atodiad A**.

28. Os oes unrhyw ymholiadau ynghylch cwblhau neu gyflwyno'r DB, gall y darparwr gwasanaeth gysylltu ag AGC dros y ffôn ar 0300 7900 126 a dewis opsiwn 4, neu drwy e-bost: AGC@llyw.cymru. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

29. Bydd rhagor o wybodaeth am y broses o gyflwyno datganiad blynyddol ar gyfer 2022/23 yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan⁸ ar ôl cwblhau cyflwyniad eleni (h.y. ar ôl 31 Hydref).

⁸ [Cyflwyno Datganiadau Blynyddol | Arolygiaeth Gofal Cymru](#)

Atodiad A – Cwestiynau Cyffredin

1. Sut gall darparwr y gwasanaeth gael mynediad i gyfrif AGC Ar-lein?

Rhaid i chi gael cyfrif defnyddiwr er mwyn defnyddio AGC Ar-lein a chael mynediad at y Gwasanaethau Ar-lein. Mae AGC Ar-lein ar gael drwy ein gwefan AGC <https://arolygiaethgofal.cymru/gwasanaethau-ar-lein>

Os nad oes gennych gyfrif defnyddiwr AGC Ar-lein: gallwch wneud cais am gyfrif defnyddiwr drwy ddewis y botwm “Creu Cyfrif Newydd” ar sgrin mewngofnodi AGC Ar-lein. Gofynnir i chi gwblhau'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, gan gynnwys eich PIN cynnau.

Cael eich PIN cynnau: anfonwyd PIN cynnau at bob unigolyn cyfrifol dynodedig yn y cyfeiriad a gedwir gan AGC ar gyfer pob unigolyn.

Os ydych yn unigolyn cyfrifol ac nad ydych wedi derbyn neu wedi colli eich PIN cynnau, neu os yw eich PIN cynnau wedi'i ddadactifadu, bydd angen i chi gysylltu ag AGC ar 0300 7900 126 a dewis opsiwn 4.

Os ydych yn cael unrhyw anawsterau wrth gael mynediad i'r ffurflen DB ar-lein, cysylltwch ag AGC ar 0300 7900 126 a dewiswch opsiwn 4 yn y lle cyntaf.

2. A all mwy nag un person helpu i gwblhau'r DB i'w gyflwyno yn 2022?

Dim ond yr unigolyn/unigolion cyfrifol neu swyddog(ion) y sefydliad sy'n gysylltiedig â'r darparwr sydd wedi actifadu eu cyfrif AGC Ar-lein all gael mynediad at eu datganiad blynyddol, ei gwblhau a'i gyflwyno. Ni all cynorthwyyr ar-lein gwblhau na chyflwyno'r datganiad blynyddol.

3. A oes angen cwblhau'r DB 'mewn un eisteddiad?'

Na, bydd pwy bynnag sy'n cwblhau'r DB yn gallu llywio drwy'r system gan ei 'chadw wrth fynd'.

4. A oes angen i ddarparwr sydd newydd gofrestru gyflwyno DB eleni?

Os oedd y darparwr gwasanaeth wedi'i gofrestru yn ystod unrhyw un o'r cyfnodau adrodd (2018-19, 2019-20, 2020-21 neu 2021-22) y mae'r DB yn ymwneud ag ef, yna mae'n ofynnol i'r darparwr gwasanaeth gyflwyno DB. Mae'n ofynnol i'r darparwr gwasanaeth gyflwyno DB ar gyfer pob un o'r cyfnodau adrodd y cafodd ei gofrestru ar eu cyfer.

5. Beth fydd yn digwydd os bydd endid cyfreithiol y darparwr gwasanaeth wedi newid?

Lle mae endid cyfreithiol y darparwr gwasanaeth wedi newid, cysylltwch â thîm cofrestru AGC ar unwaith i'w drafod. Bydd angen i chi gysylltu ag AGC ar 0300 7900 126 a dewis opsiwn 1.

6. A oes angen cyflwyno DB os yw darparwr y gwasanaeth wedi sefydlu gwasanaeth sydd newydd ei reoleiddio?

Os cafodd y gwasanaeth ei gymeradwyo (o fewn cofrestriad y darparwr gwasanaeth) a'i fod yn weithredol yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r DB yn ymwneud â hi, yna mae'n ofynnol i'r darparwr gwasanaeth gynnwys gwybodaeth am y gwasanaeth rheoleiddiedig hwnnw yn y DB.

Os cymeradwywyd y gwasanaeth yn 2021-22, ond nad oedd yn weithredol ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod adrodd hwnnw, mae'n dal yn ofynnol i'r darparwr gwasanaeth gynnwys gwybodaeth am y gwasanaeth rheoleiddiedig hwnnw yn y DB. Fodd bynnag, mewn ymateb i'r cwestiwn ynghylch nifer y bobl y mae'r gwasanaeth rheoleiddiedig hwnnw'n darparu gofal a chymorth iddynt, dylai'r darparwr gwasanaeth nodi sero.

Bydd y DB yn egluro pa wasanaethau y mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu gwybodaeth mewn perthynas â nhw.

7. A oes angen i'r DB gynnwys gwybodaeth am wasanaeth rheoleiddiedig sydd wedi'i dynnu oddi ar gofrestriad y darparwr gwasanaeth?

Nac oes. Os yw gwasanaeth rheoleiddiedig wedi'i dynnu oddi ar gofrestriad y darparwr gwasanaeth yna nid oes angen i'r DB gynnwys gwybodaeth am y gwasanaeth hwnnw (yn unrhyw un o'r cyfnodau adrodd).

8. Pa gyfnod mae'r wybodaeth yn y DB yn ei gwmpasu?

Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y DB yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol. Bydd DBau ar wahân ar gyfer pob un o'r cyfnodau adrodd 2018-19, 2019-20, 2020-21 neu flwyddyn ariannol 2021-22. Bydd y DBau y mae angen i'r darparwr gwasanaeth eu cwblhau yn dibynnu ar ei flwyddyn gofrestru. Bydd system AGC Ar-lein yn nodi'n glir pa gyfnodau adrodd y mae angen cyflwyno DB ar eu cyfer yn 2022 (gweler tabl).

Bydd yn ofynnol i ddarparwr gyflwyno datganiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y cafodd ei gofrestru, a phob blwyddyn ddilynol. Os cofrestrodd y darparwr ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn ariannol, bydd angen datganiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno.

Pa ddatganiadau blynyddol y bydd angen i chi eu cwblhau?
Which annual returns will you need to complete?



Dyddiad cofrestru darparwr Provider registration date	Datganiad Blynyddol ar gyfer 2018/19 Annual Return for 2018/19	Datganiad Blynyddol ar gyfer 2019/20 Annual Return for 2019/20	Datganiad Blynyddol ar gyfer 2020/21 Annual Return for 2020/21	Datganiad Blynyddol ar gyfer 2021/22 Annual Return for 2021/22
Rhwng 1/4/18 a 31/3/19 Between 1/4/18 and 31/3/19	✓	✓	✓	✓
Rhwng 1/4/19 a 31/3/20 Between 1/4/19 and 31/3/20	✗	✓	✓	✓
Rhwng 1/4/20 a 31/3/21 Between 1/4/20 and 31/3/21	✗	✗	✓	✓
Rhwng 1/4/21 a 31/3/22 Between 1/4/21 and 31/3/22	✗	✗	✗	✓

9. Pryd bydd y DB ar gael i'w gwblhau?

Bydd y DB ar gyfer pob cyfnod adrodd ar gael o gyfrif AGC Ar-lein y darparwr gwasanaeth o **1 Awst 2022**.

10. Pryd bydd angen cyflwyno'r DB?

Rhaid cyflwyno'r DB (ar gyfer pob cyfnod adrodd) drwy gyfrif AGC Ar-lein y darparwr gwasanaeth **erbyn hanner nos, 31 Hydref 2022**.

11. Ym mha iaith fydd y DB yn cael ei gyhoeddi?

Bydd y DB yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGC yn Gymraeg ac yn Saesneg.

12. Mae gwall gyda'r wybodaeth sydd wedi'i rhaglenwi yn fy DB ar gyfer un o'r cyfnodau adrodd – a oes modd ei gywiro?

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y DB yn adlewyrchu'r data cofrestru a gedwir gan AGC ar gyfer y cyfnod adrodd a nodwyd. Ni ellir newid yr wybodaeth gofrestru hon. Dim ond ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol y gall y darparwr gwasanaeth ddiweddarau ei fanylion cofrestru. Cyfrifoldeb y darparwr gwasanaeth yw sicrhau bod ei gofrestrriad yn parhau i fod yn gyfredol ac yn gywir.

Os ydych yn credu bod yr wybodaeth anghywir o ganlyniad i wall system yn hytrach na mater cofrestru, bydd angen i chi gysylltu ag AGC ar 0300 7900 126 a dewis opsiwn 4.

13. Unwaith y bydd y DB wedi'i gyflwyno, a ellir ei newid?

Mae AGC yn disgwyl i'r darparwr gwasanaeth wirio a chytuno ar gynnwys y DB cyn ei gyflwyno. Unwaith y bydd DB wedi'i gyhoeddi ar wefan AGC, ni ellir newid y DB.

Os yw'r darparwr gwasanaeth yn credu bod y DB a gyflwynwyd yn cynnwys gwall, dylai gysylltu ag AGC cyn gynted â phosibl ar 0300 7900 126 a dewis opsiwn 4.

14. A allaf lawrlwytho copi o'm datganiad blynyddol?

Gallwch lawrlwytho copi o'r datganiad blynyddol mewn dwy ffordd:

- Cyn cyflwyno. Unwaith y byddwch wedi mewnbynnu'r holl wybodaeth sy'n angenrheidiol i'ch datganiad blynyddol, gallwch ddewis y dudalen 'Datganiad' a bydd gennych yr opsiwn i lawrlwytho copi cyn ei gyflwyno. Gallwch ddefnyddio'r opsiwn hwn os bydd angen i chi rannu copi o'ch datganiad blynyddol arfaethedig i'w gymeradwyo gan eich prosesau llywodraethu mewnol.
- Ar ôl cyflwyno. Gallwch gael mynediad i'ch datganiad blynyddol wedi iddo gael ei gyflwyno o brif dudalen y datganiad blynyddol. Pwyswch y botwm lawrlwytho ar gyfer y flwyddyn berthnasol a bydd fersiwn PDF o'ch datganiad blynyddol yn cael ei greu.

15. Mae'r datganiad blynyddol yn gofyn faint o bobl yr ydym wedi darparu cymorth iddynt. Bydd nifer y bobl yr ydym yn eu cefnogi yn amrywio yn ystod y cyfnod, felly ar ba bwynt y dylem gymryd y cyfanswm?

Mae'r cwestiwn yn gofyn faint o bobl **mewn cyfanswm** y gwnaethoch ddarparu gofal a chymorth ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn – nid faint ar unrhyw un adeg.

Er enghraifft, i gyfrifo faint o bobl y gwnaethoch ddarparu gofal a chymorth ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn mewn gwasanaeth cartref gofal, defnyddiwch eich deiliadaeth gychwynnol am y flwyddyn, ynghyd â faint o dderbyniadau a fu yn ystod y cyfnod ariannol; mae hyn yn cyfateb i "gyfanswm y bobl yr ydych wedi darparu gofal ar eu cyfer".

Pan fyddwch wedi darparu gofal a chymorth i unigolyn fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn, mae pob 'cyfnod o ofal a chymorth' i'w ychwanegu at eich cyfanswm.

16. Mae'r datganiad ar ddiwedd y datganiad blynyddol yn cynnwys pedwar datganiad i ni ddewis o'u plith. Os ydych wedi cael dau arolygiad yn ystod y flwyddyn a chafodd materion cydymffurfio eu codi yn yr un cyntaf, ac ni chafodd materion cydymffurfio eu codi yn yr ail un, pa ddatganiad yr ydych yn ei dicio?

Dylech ddewis y datganiad sy'n disgrifio orau eich sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Yn y sefyllfa hon (uchod), byddech chi'n dewis:

“Cawsom ein harolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn ystod y cyfnod adrodd. Gwnaeth yr arolygiad nodi nad oedden ni'n cydymffurfio'n llawn â'r holl reoliadau dan adran 27(1) o Ddeddf 2016. O ganlyniad, gwnaethom gymryd cam(au) gweithredu i wella cydymffurfedd â'r rheoliadau perthnasol.”

17. Deuthum yn unigolyn cyfrifol yn ddiweddar. Ydw i'n cyflwyno'r datganiad blynyddol o'r adeg pan wnes i gymryd drosodd, neu pan gafodd y gwasanaeth ei gofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016?

Mae'r datganiad blynyddol yn ddatganiad i ddarparwyr. Mae'n ofynnol i ddarparwr gyflwyno datganiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y cafodd ei gofrestru, a phob blwyddyn ddilynol. Nid yw'r datganiad blynyddol yn seiliedig ar bryd y dynodwyd cyfrifoldeb i'r unigolyn cyfrifol am wasanaeth.

Os yw darparwr newydd wedi prynu'r gwasanaeth a'i gofrestru o dan endid cyfreithiol newydd, dim ond o gyfnod y cofrestrriad newydd hwnnw y byddwch yn cwblhau datganiad blynyddol.